


2005

ADRAN A


1. Sawl ongl lem sydd yn y llun hwn?



- a) 2 b) 4 c) 6 **ch) 7** d) 9

2. Ysgrifennir dwy fil, dau gant a dau fel 2202, ac wyth mil, wyth gant ac wyth fel 8808. Sut ysgrifennir 28 mil, 28 cant a 28?

- a) 282828 b) 2828028 **c) 30828** ch) 28428 d) 28308




3. Mae Eleri'n hoffi 9^2 ond nid 80; mae'n hoffi 15^2 ond nid 224; mae'n hoffi 900 ond nid 800. Pa un o'r canlynol y mae Eleri yn ei hoffi?

- a) 41 **b) 49** c) 55 ch) 63 d) 91

4. Ailadroddir enw SIONED yn y patrwm hwn:



$\overset{6}{\text{SIONED}}/\text{SIONED}/\text{SIONED} \dots$

Beth yw'r 2005ed llythyren yn y patrwm?



- a) S** b) I c) O ch) N d) E

5. Yn y diagram hwn dangosir maint yr onglau mewn graddau. Faint yw'r ongl x?



- a) 45 **b) 50** c) 55 ch) 60 d) 65

6. Pa un o'r atebion a awgrymir yw cymedr y data hyn?

2, 3, 4, 4, 3, 2, 3, 5, 4, 6, 7, 4, 6, 8, 6, 8,
 9, 9, 5, 4, 3, 2, 6, 6, 7, 4, 5, 7, 8, 6, 3, 4,
 7, 5, 6, 2, 3, 4, 3, 6, 8, 6, 3, 4, 5, 5, 4, 2,
 8, 7, 5, 3, 1, 9, 9, 6, 3, 5, 2, 3, 5, 6, 2, 4,
 3, 1, 7, 9, 7, 5, 6, 4, 5, 3, 2, 5, 7, 9, 8

- a) 0 b) 1 **c) 5** ch) 9 d) 15

7. Mae $\frac{3}{5}$ o aelodau clwb ieuencid yn ferched a'r gweddill yn fechgyn. Faint yw'r gymhareb o ferched i fechgyn ymysg aelodau'r clwb?

3:2

- a) 3:5 b) 5:3 c) 3:8 ch) 5:8 **d) 3:2**

8. Mae 32 tîm mewn cystadleuaeth *knockout*. Mae 16 gêm yn y rownd gyntaf. Sawl gêm sydd yn y gystadleuaeth i gyd?

16 + 8 + 4 + 2 + 1

- a) 24 b) 28 c) 30 **ch) 31** d) 32

9. Sgôr derfynol gêm hoci oedd 2-1 i'r tîm cartref. Sawl sgôr wahanol a allai wedi bod ar hanner amser?

0-0, 1-0, 1-1, 2-0, 2-1

- a) 3 b) 4 **c) 5** ch) 6 d) 7

10. Mae dau deipydd yn gallu teipio dwy dudalen lawn mewn dau funud. Sawl teipydd sydd eu hangen i deipio 18 tudalen lawn mewn chwe munud?

Teip	Tud	Amser
2	2	2
2	1	1
2	18	18
6	18	6

- a) 3 b) 4 **c) 6** ch) 12 d) 36



11. Yn y diagram hwn mae gan bob llythyren werth arbennig. Y rhif wrth bob colofn a rhes yw cyfanswm gwerth y llythrennau yn y golofn neu'r rhes. Pa rif yw'r marc cwestiwn?

a	a	a	a	28	$a=7$
a	a	b	b	30	$b=8$
b	c	d	a	20	$c+d=5$
d	d	c	b	16	$d=3$
?	19	20	30		

- a) 23 **b) 25** c) 28 ch) 30 d) 32

ADRAN B

1. Dyma'r tri phatrwm cyntaf mewn dilyniant o batrymau.



Sawl sgwâr du sydd ym mhob patrwm?

$$\begin{array}{ccc} 1^2 & 2^2+1^2 & 3^2+2^2 \\ \downarrow & \downarrow & \downarrow \\ 1, & 5, & 13 \end{array}$$

Sawl sgwâr du sydd yn y 4ydd patrwm?

$$4^2 + 3^2 = 16 + 9 = 25$$


Sawl sgwâr du sydd yn y 10fed patrwm?

$$10^2 + 9^2 = 100 + 81 = 181$$

Sut fedrwyd chi gyfrifo nifer y sgwariau du heb eu cyfrif fesul un?

$$n\text{fed patrwm: } n^2 + (n-1)^2 \text{ sgwâr du}$$



2.



Mae pob sgwâr yn y grid yn cynrychioli afal.

Y sgwariau gwyn yw'r afalau iach a'r sgwariau du yw'r afalau drwg (sydd wedi pydru).

Os yw sgwâr gwyn ochr yn ochr â dau neu fwy o sgwariau du, yna mae'n troi'n ddu, fel hyn:




neu

- a) A oes unrhyw afal yn y grid uchod yn aros yn iach? Oes neu nac oes?


Nac oes

- b) A oes unrhyw afal yn aros yn iach yn y grid hwn? Os oes, faint? oes, 4








c) Gosodwch 4 afal drwg yn y grid hwn er mwyn gadael y nifer mwyaf posibl o afalau iach:

12 afal iach



Mewn sawl ffordd wahanol fedrwrch chi osod y 4 afal er mwyn gadael y nifer mwyaf posibl o afalau iach? Dangoswch eich atebion ar y sgwariau isod.

ch) Faint yw'r nifer lleiaf o afalau drwg a fyddai'n pydru'r afalau sydd yn y grid i gyd? Ateb 4



a mwy.....